

Y broblem gyda rhieni ...

Mae Lyn yn paratoi llythyr i gylchgrawn ar gyfer pobl ifanc.
Mae angen cywiro'r darn gan fod ynddo nifer o wallau iaith a bylchau.

Annwyl IFANC

Dw i'n ysgrifennu atoch chi oherwydd mae gen i dipyn o broblem.

Dw i'n gwybod bod fy rhieni i'n meddwl y byd ohono i, ond mae nhw'n mynd dros ben llestri weithiau.

Dw i'n astudio ar gyfer fy arholiadau TGAI ar hyn o bryd ac, yn fy marn i, dw i'n gweithio'n dda. Dw i'n gwneud fy ngwaith cartref bob nos ond os ydw i wedi gorffen erbyn tua haner awr wedi saith mae Mam yn gofyn, "Wyt ti wedi gorffen popeth? Beth am adolygu? Cofia fod gen ti arholiadau cyn bod hir"

Dyna sy'n fy ngwylltio i. Mae tri fis tan yr arholiadau! Mae hen ddigon o amser gen i i adolygu.

Nid hynny'n unig! Os ydw i eisiau gwylio ffilm hwyr ar y teledu, neu siarad â fy ffrindiau drwy'r cyfrifiadur yn hwyr yn y nos, mae Dad yn dod i fy ystafell i roi pregeth am bwyysigrwydd mynd i'r gwely'n gynnar a chael "noson dda o gwsg. Dw i'n cael noson dda o gwsg bob nos - byddwn i'n gallu cael noson well o gwsg petaen nhw'n gadael i mi gysgu ymlaen ar fore Sadwrn a bore Sul yn lle neffro i am un ar ddeg o'r gloch y bore.

..... fy helpu i os gwelwch yn dda? Dw i wedi cael llond bol!

Diolch yn fawr ymlaen llaw.

Lyn